| Paratowyd gan: Liam Wheeler-Jones |
|---|

# Adroddiad Grŵp Cyflawni BGC

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Nod pob prosiect bro fydd mynd i'r afael â'r nodau llesiant a amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith cyflawni bro yn rhoi blaenoriaeth i integreiddio a bydd yn cynnwys dull gweithredu holistig tuag at gydnerthedd cymunedol ac unigol, a fydd yn mynd at wraidd y mater. |
| **Ein Gwerthoedd** | Yr Iaith Gymraeg, Trechu Anghydraddoldebau, Cyswllt, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl. |
| **Enw'r Grŵp Cyflawni** | Gwella Llesiant Cymunedol a Threchu Caledi yn Aberteifi |
| **Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

| **Aelodaeth y Grŵp Cyflawni** *(Mae'r enwau mewn print **trwm** yn dynodi eu presenoldeb yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Alison Heal, Bethan James, Caitlin Theodorou, Carwyn Young, Carys Huntley, Carys Owens, Cathryn Morgan, Catrin George, Cerys Purches-Phillips, Connor Cook, Elinor Ashworth – Chandler, Eirlys Lloyd, Y Cynghorydd Elaine Evans, Emily Edwards, Erin McCudden, Mari Hopkins, Martin Gillard, Melanie Walters, Non Davies, Rhiannon John, Rob Starr, Sarah Evans, Sarah Griffiths, Dr Sarah Groves Phillips<br>Tîm Partneriaethau: Anwen Thomas, **Lynne Walters**, Neris Davies, Sara Dafydd, Steffan Gruffudd, **Teleri Elias**, Timothy Bray, Liam Wheeler-Jones | Tai Wales & West | **Rhiannon Ling** |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Conrad Hancock, Geinor Jones, Jackson Reynolds, Janet Knill, **Rhian Rees**, **Terri-Ann Patrick**, Trina Nealon, Vicki Howell-Williams |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | Chesca Ross | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Steven Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen, Sue Thomas | Mentera | Ann Owen |
| CAB Ceredigion | Glynis Llewelyn, Juliet Morris | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Mandy Williams, Mererid Lewis |
| Area 43 | Becca Head | Age Cymru | Lynne Hughes-Davies |

## CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP CYFLAWNI

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yn ystod cyfarfod y Grŵp Cyflawni: 8.10.2025**

**18.1 Croeso ac Ymddiheuriadau**
Cyflwynodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod.

**Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:** Elinor Ashworth-Chandler, Glynis Llewelyn, Mandy Williams, Eirlys Lloyd, Timothy Bray, Emily Evans, a Sue Thomas

**18.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol (08.07.25)**
Nodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2025 a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd bod y camau gweithredu a gofnodwyd wedi cael eu cwblhau neu eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

**18.3 Eitem Sefydlog: Diweddariad o gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (15.09.25)**
Roedd y cyfarfod BGC diwethaf wedi cynnwys ymweliad â Fferm Holden ger Llanbedr Pont Steffan a gweithdy am gydnerthedd bwyd. Amlinellodd Edward Morgan (Castell Howell) waith y cwmni er mwyn cynyddu'r gweithgarwch cyrchu lleol ar gyfer ysgolion a chwsmeriaid eraill. Rhoddodd Ann Owen (AO) ddiweddariad am y strategaeth cydnerthedd bwyd sydd ar y gweill, sy'n gysylltiedig â

Phwysau Iach Cymru Iach a gweithgarwch mapio bwyd a gynhaliwyd yn Aberteifi yn ddiweddar. Pwysleisiodd Patrick Holden bwysigrwydd cenedlaethol rhoi blaenoriaeth i gydnerthedd bwyd a chryfhau'r cysylltiadau gyda'r bartneriaeth fwyd ranbarthol sy'n dod i'r amlwg.

Yn ystod y prynhawn, bu'r BGC yn adolygu'r cyfleuster olrhain gweithgarwch, blaenoriaethau'r cynllun llesiant, a chydweithio rhanbarthol – yn enwedig gwaith ar y cyd gyda BGC Sir Gaerfyrddin am yr asesiad risg newid hinsawdd (CCRA). Caiff dull gweithredu rhanbarthol ei ddatblygu, ac mae manyleb dechnegol wedi cychwyn er mwyn comisiynu cymorth allanol. Yn ystod sesiwn ar 8 Hydref gyda darpar bartneriaid CCRA, adolygwyd strategaethau a chynlluniau gweithredu sy'n bodoli eisoes.

Rhoddwyd diweddariadau am y gwaith yn Llanbedr Pont Steffan ac yn Aberteifi. Roedd sesiwn ffocws gan Amy Andrews (Prifysgol Aberystwyth) wedi canolbwyntio ar fwyd a lles. Nodwyd peair elfen arloesol bosibl:

- Rhwydwaith cegin cymunedol
- Dull gweithredu "tyfu, coginio, bwyta" ysgol gyfan
- Model fferm gymunedol
- Rôl mentor systemau bwyd

Amlygodd y Cadeirydd werth alinio gwaith hinsawdd gyda Sir Gaerfyrddin, ac awgrymodd y gallai cydweithio rhanbarthol gynorthwyo datblygiad y cynllun llesiant nesaf. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch un BGC strategol posibl i Orllewin Cymru, gydag ymrwymiad parhaus i ddarpariaeth leol.

Nododd y Cadeirydd hefyd y gallai cysylltiadau cryfach gyda Castell Howell wneud defnydd gwell o gynnyrch lleol. Un enghraifft oedd brocoli dros ben a dyfir yn ystod y gwyliau ysgol, y gallai fod wedi cael ei ddefnyddio gan gynlluniau cymunedol neu fanciau bwyd pe bai cysylltiadau gwell yn eu lle.

**Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i gysylltu â Castell Howell i archwilio'r cam o gryfhau cysylltiadau cymunedol.**

**18.4 Diweddariad am Geredigion Oed-gyfeillgar**

Diweddariad gan Bethan James (BJ)-

Dros yr haf, bu Elinor Ashworth-Chandler (EAC) yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol a digwyddiadau, gan gynnwys sioeau teithiol yr haf a gweithgareddau Ffit am Oes.  Cyfarfu'r Fforwm Oed-gyfeillgar ym mis Awst, a ddilynwyd gan gylchlythyr mis Medi;  cynhelir y Fforwm nesaf ym mis Tachwedd.  Roedd digwyddiad llwyddiannus yn Hyb Penparcau ym mis Medi wedi denu dros 50 o bobl, a bwriedir cynnal yr Hyb Iechyd nesaf ar 21 Ionawr 2026.  Croesawyd digwyddiad Iechyd yn y Gwaith a gynhaliwyd ar 1 Hydref, er bod cyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn rhwystr wrth geisio cynnal digwyddiadau tebyg yn fwy rheolaidd.

Mae oedi o ran y cynlluniau i gynnal digwyddiadau iechyd pellach ar draws y sir oherwydd cyfyngiadau ariannol.  Mae gwaith wedi cychwyn i archwilio cymorth ychwanegol a chydlynu gweithgarwch yn y dyfodol gyda Hywel Dda er mwyn osgoi dyblygu.

Cwblhawyd y gwaith adrodd chwe-misol i Lywodraeth Cymru.  Mae'r gwaith ymgynghori wedi cychwyn ar y Canllaw Busnes sy'n Deall Dementia, a gaiff ei lansio yn ystod y Fforwm ym mis Tachwedd,

Mae EAC yn cefnogi'r digwyddiad a arweinir gan y Gwasanaeth Tân, "At Eich Gwasanaeth:  Iechyd a Lles" a gynhelir yng Ngorsaf Dân Aberystwyth ar 13 Tachwedd.

**18.5 Diweddariad am Siarter gwaith Teg BGC**

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gan yr Is-grŵp Tlodi er mwyn datblygu Siarter Gwaith Teg a oedd yn cynnwys 13 addewid ar gyfer sefydliadau BGC.  Mae pob sefydliad yn rhoi'r siarter trwy eu proses lywodraethu ar hyn o bryd, a rhoddir diweddariadau yn ystod cyfarfod nesaf BGC.  Cyflwynir papur i Gabinet CSC ar 2 Rhagfyr, (a drafftiwyd a dosbarthwyd llyfr cefndir gan y Cadeirydd i bartneriaid).

Bu'r is-grŵp Tlodi yn trafod annog arferion gwaith teg hefyd trwy gyfrwng grantiau a gweithgarwch caffael.  Nododd cydweithwyr caffael y dylai hwn gyd-fynd â maint contractau er mwyn osgoi rhoi busnesau llai dan anfantais, gan ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth yn hytrach na gofynion llym.

Mae Cathryn Morgan (CM) yn datblygu arolwg ar-lein er mwyn i sefydliadau allu adrodd am y cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r siarter, er mwyn cyfrannu at adroddiad blynyddol BGC.

**18.6 Ymgynghoriadau, Digwyddiadau ac ymgysylltu –**

**<u>Diweddariad am y Panel Pobl gan Cathryn Morgan</u>**

Mae tua 2,000 o breswylwyr wedi cofrestru i gael diweddariadau ymgynghori trwy Fy Nghyfrif. Sefydlwyd Panel Pobl newydd trwy gyfrwng y system hon er mwyn cynorthwyo grwpiau ffocws ac arolygon cyflym; mae 82 o bobl wedi ymuno hyd yn hyn. Mae tîm yr Iaith Gymraeg a Diwylliant yn bwriadu defnyddio'r panel er mwyn cyfrannu at eu strategaeth diwylliant. Amlygwyd defnydd rheolaidd o'r panel er mwyn cynnal ymgysylltiad.

Nodwyd hefyd y byddai cryn fudd o gael Fy Nghyfrif fel Ap, oherwydd y byddai hyn yn help mawr er mwyn rhoi hwb i ymgysylltu gyda phobl, yn enwedig y rhai sy'n ei chael hi'n haws defnyddio apiau.

**Gweithredu: Cathryn Morgan i godi'r mater ynghylch y defnydd posibl o Ap "Fy Nghyfrif".**

**<u>Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles</u>**

Rhoddodd Rhian Rees gyflwyniad am y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles:

08.10.25 SmfHW Aberteifi Llesiant mee

NotesItem 18.6 Cardigan Wellbeing G

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid diwygio dangosfyrddau data Aberteifi er mwyn nodi materion blaenoriaeth presennol, gan nodi'r aliniad da gyda gwaith parhaus Pwysau Iach Cymru Iach.

**Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i ystyried posibilrwydd y grŵp hwn yn cael diweddariad am y data allweddol gan Rob Starr yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.**

**<u>18.7 Digwyddiadau'r Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol – Diweddariad ac Ymgysylltu</u>**

Rhoddodd Rob Allen a Sandra Mitchell ddiweddariad am eu hymgysylltu; mae modd gweld y cyflwyniad isod.

CDOT ppt v08.10.25.pdf

Nododd y Cadeirydd bod cyllid ychwanegol ar gyfer digwyddiadau Iechyd yn yr Hwb yn cael ei sicrhau, a bwriedir i Aberteifi fod yn ffocws ar gyfer y rownd nesaf.

**<u>18.8 Diweddariad am ganlyniadau a blaenoriaethau Economaidd ar gyfer Aberteifi</u>**

**Diweddariad gan Catrin George (CAVO)**
Er mis Mawrth, mae tîm Cynnal y Cardi a'r Economi ac Adfywio wedi bod yn darparu 28 o brosiectau strategol dan UKSPF, gan gynnwys sawl un yn Aberteifi: Astudiaeth Ddichonolrwydd Canolfan Lles Aberteifi, Cysylltu Ceredigion, Rhwydwaith Cyngor a Gwybodaeth Ceredigion, Gwerthfawrogi Gwirfoddoli, Sbarc Ceredigion, a Chymorth Busnes/Busnes Clyfar.
Mae 17 digwyddiad wedi cael cyllid gan y Gronfa Digwyddiadau. Mae holl ddyraniadau Cronfa Busnes Cynnal y Cardi yn gyflawn, gyda 6 o blith 21 prosiect yn Aberteifi. Cafodd tri phrosiect yn Aberteifi gyllid gan y Gronfa Prosiectau Cymunedol. Nid yw cyllid Arfor ar gael eleni, ond mae Rhaglen Profi UKSPF yn parhau gydag agweddau ar y gwaith hwn.
Cynhaliwyd Gweithdy Strategaeth Economaidd Ceredigion ar 11 Medi, a fynychwyd gan nifer dda o bobl. Bydd sesiynau a gynhelir cyn bo hir, gan gynnwys yn Aberteifi (12 Tachwedd) ac yn Aber-porth (14 Tachwedd), yn casglu mewnbwn busnes a chymunedol er mwyn helpu i siapio'r strategaeth economaidd yn y dyfodol.

**Trawsnewid Trefi:** Llwyddwyd i sicrhau cyllid creu lle o £2 filiwn y flwyddyn (2025-2027) ar gyfer Powys a Cheredigion er mwyn cynorthwyo busnesau lleol, mentrau cymdeithasol, a chyrff cyhoeddus. Ariannwyd toiledau cyhoeddus Chancery Lane yn Aberteifi trwy'r cynllun hwn.

**Astudiaeth Ddichonolrwydd, diweddariad am gynlluniau Canolfan Lles Aberteifi:** adroddodd Carwyn Young (CY) bod cyllid UKSPF wedi cael ei sicrhau, bod y brîff wedi cael ei gwblhau a'r gwaith wedi cael ei gomisiynu. Bwriedir cynnal gweithgarwch ymgynghori cyhoeddus yn gynnar flwyddyn nesaf, ynghyd â thrafodaethau gyda Rheoli Datblygu ac arolygon parcio.

**<u>18.9 Diweddariadau Partneriaid</u>**

**Diweddariadau Partneriaid:**
Nodwyd y bwriedir cynnal Ffair Wirfoddoli a Swyddi yn Aberteifi ar 30 Hydref gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Adroddodd CM am gyllid a sicrhawyd gan Dlodi Bwyd a Mannau Cynnes: mae'r grwpiau a gynorthwyir yn cynnwys Banc Bwyd Aberteifi, Trechu Tlodi Bwyd, Jig-So, Barcud, Cymdeithas Ofal, ac ysgol Gynradd Aberteifi (cynllun cegin mewn bocs). Dyfarnwyd cyllid Lle Croeso Cynnes i Depot, New Life Church, Jig-So ac Eglwys Mount Zion.
Nododd HLL ymatebion cryf i Grantiau Tref Aberteifi, a bod sawl menter gymdeithasol yn cael eu hariannu nawr.

Diweddariad Dŵr Cymru: mae Dŵr Cymru wedi cynorthwyo Aberteifi trwy gyfrwng ei brosiect cymunedau cydnerth o ran dŵr, gan gynnig help gyda biliau, hyfforddi 8 sefydliad partner, mynychu 20 digwyddiad lleol, a chynorthwyo 200 o bobl. Maent hefyd wedi darparu ymweliadau ysgol a gweithdai am faterion amgylcheddol allweddol.

**Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i wahodd cynrychiolydd Dŵr Cymru i gyfarfod yn y dyfodol a'u cysylltu gyda phrosiect yr ysgol gymunedol.**

Prosiect Tabernacl: bydd HLL yn ystyried gwahodd Prosiect Tabernacl/tîm Hwb i gyflwyno eu gweledigaeth a'u cynlluniau i'r grŵp ac i archwilio sut y gall partneriaid gynorthwyo eu datblygiad.

**Gweithredu: Gwahodd Prosiect y Tabernacl/tîm Hwb i gyfarfod yn y dyfodol i gyflwyno eu cynlluniau ac archwilio cymorth gan bartneriaid.**

**Rhiannon Ling (Tai Wales & West):** Ailgyhoeddwyd y tendr, a disgwylir i'r gwaith gychwyn yn ystod y gwanwyn 2026, gan gynnwys swyddfa Wales & West, depo Cambria, 20 o fflatiau, a datblygiad New Mill o 51 o gartrefi.

**<u>18.10 Unrhyw Fater Arall</u>**

October Events Calendar (2).pdf

**18.11 Dyddiad y cyfarfod nesaf:** I'w gadarnhau

| **Cofnod o Grynodeb y Camau Gweithredu** |
|---|
| 1. Y Tîm Partneriaethau i gysylltu â Castell Howell i archwilio'r cam o gryfhau cysylltiadau cymunedol. |
| 2. Cathryn Morgan i godi'r mater ynghylch y defnydd posibl o Ap "Fy Nghyfrif". |
| 3. Y Tîm Partneriaethau i ystyried posibilrwydd y grŵp hwn yn cael diweddariad am y data allweddol gan Rob Starr yn ystod cyfarfod yn y dyfodol. |
| 4. Y Tîm Partneriaethau i wahodd cynrychiolydd Dŵr Cymru i gyfarfod yn y dyfodol a'u cysylltu gyda phrosiect yr ysgol gymunedol. |
| 5. Gwahodd Prosiect y Tabernacl/tîm Hwb i gyfarfod yn y dyfodol i gyflwyno eu cynlluniau ac archwilio cymorth gan bartneriaid. |